

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40
(HWLFFORDD, SIR BENFRO) (TERFYN
CYFLYMDER 40 MYA) 202-**

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn cyflwyno terfyn cyflymder o 40 mya ar ddarnau o gefnffordd yr A40 yn Hwlffordd yn dilyn adeiladu ffordd fynediad newydd sy'n cysylltu'r gefnffordd â'r ysgol newydd sef Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlffordd. Mae cyffordd newydd a reolir gan signalau gyda lôn bwrpasol i droi i'r chwith hefyd wedi ei dylunio a'i hadeiladu yn seiliedig ar gyflymder dylunio 40 mya, a oedd yn angenrheidiol oherwydd ei agosrwydd at Gylchfan Scotchwell. Mae hyn bellach yn rhoi gwelededd digonol i'r gyffordd ac oddi yno er mwyn i gerbydau symud yn ddiogel.

O ystyried hyn, bydd y Gorchymyn arfaethedig yn ymestyn terfyn y parth 40 mya er mwyn cwmpasu'r gyffordd lawn a'r dynesfeydd yn union gerllaw ac yn gwella diogelwch ar y ffordd i holl ddefnyddwyr y ffordd.

Bydd Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Narberth Road a Fishguard Road, Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2013 (O.S. 2013/2507 (Cy.246)) yn cael ei ddirymu gan y Gorchymyn arfaethedig a bydd Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya a Dileu Cyfyngiadau) 2018 (O.S. 2018/941 (Cy.185)) yn cael ei amrywio gan y Gorchymyn arfaethedig.

**THE A40 TRUNK ROAD (HAVERFORDWEST,
PEMBROKESHIRE) (40 MPH SPEED LIMIT)
ORDER 202-**

STATEMENT OF REASONS

The proposed Order will introduce a 40 mph speed limit on lengths of the A40 trunk road in Haverfordwest following the construction of a new access road linking the trunk road to the new Haverfordwest High VC school. A new signal-controlled junction with dedicated left turning lane has also been designed and constructed based on a 40 mph design speed, which was necessary due to its proximity to Scotchwell Roundabout. This now gives sufficient visibility to and from the junction for vehicles to manoeuvre safely.

In view of this, the proposed Order will extend the limit of the 40 mph zone in order to encompass the full junction and immediate approaches and improve road safety for all road users.

The A40 Trunk Road (Narberth Road and Fishguard Road, Haverfordwest, Pembrokeshire) (40 mph Speed Limit) Order 2013 (S.I. 2013/2507 (W. 246)) will be revoked by the proposed Order and the A40 Trunk Road (Haverfordwest, Pembrokeshire) (40 mph & 50 mph Speed Limits and Derestriction) Order 2018 (S.I. 2018/941 (W. 185)) will be varied by the proposed Order.

